Grant Cyngor y Dref i Wella Llwybr Cerdded

Mae Cyngor Tref Llanilltud Fawr wedi sicrhau grant o £14,680 i wella llwybr cerdded sy'n cael ei ddefnyddio'n aml sy'n rhedeg ar hyd cae chwarae o'r clwb rygbi ac yn cysylltu canol y dref i ffordd sy'n arwain at ysgolion lleol.

Mi fydd yr arian yn dod o Gronfa Amaethyddol Ewrop, Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig, a bydd cyngor y dref yn cyfrannu £3,670 tuag at y cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden ac Adeiladau ''Mae Cyngor y Dref wrth eu bodd i dderbyn y grant hwn ar gyfer y llwybr poblogaidd yma i'r dref.''

Buom yn gofyn i ddefnyddwyr y llwybr am eu barn ac roedd llawer yn teimlo y byddai ehangu'r llwybr cerdded yn darparu llwybr mwy diogel i'r ysgolion, yn hytrach na phalmant priffyrdd cul.

Roedd pobl yn brwydro i ddefnyddio'r llwybr cul presennol gyda chadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn a bydd llwybr ehangach yn osgoi gorfod camu mewn i'r mwd yn y gaeaf i basio defnyddwyr eraill. Mae gan y Cyngor hefyd gynlluniau i ddarparu golau ar hyd y llwybr.

Bydd y gwaith yn dechrau ar y 4ydd o Fedi a bydd yn cymryd oddeutu tair wythnos i'w gwblhau.

Dywedodd llefarydd o Gyngor y Dref mai Cyngor y Dref fyddai un o'r cynghorau cyntaf i elwa o'r ffrwd ariannu yma o fewn ardal Bro Morgannwg.